



Ar gyfer teulu a
ffrindiau sy'n camu i'r
bwllch i fagu plentyn.



**Wythnos Gofal
Perthynas**

5 - 11 Hydref 2026

Wythnos Gofal Perthynas 2026: Canllaw i ofalwyr perthynas

Beth yw Wythnos Gofal Perthynas?

Mae Wythnos Gofal Perthynas (5 - 11 Hydref 2026) yn amser i dynnu sylw at rôl hanfodol gofalwyr perthynas – y perthnasau a'r ffrindiau sy'n camu i'r adwy i fagu plentyn pan na all eu rhieni wneud hynny.

Ar draws Cymru a Lloegr, mae mwy na 141,000 o blant yn cael eu magu mewn gofal perthynas, gan dyfu i fyny mewn cartrefi cariadus a sefydlog sy'n eu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd, eu gwreiddiau a'u cymuned.

Yr Wythnos Gofal Perthynas hon, rydym yn dathlu'r cysylltiadau anorchfygol sydd wrth wraidd teuluoedd perthynas - a'r cymunedau maen nhw'n eu hadeiladu i gefnogi ei gilydd - wrth dynnu sylw at realiti camu i'r adwy i ofalu am blentyn sydd wedi cael dechrau anodd mewn bywyd.

Eleni rydym hefyd yn nodi carreg filltir bwysig: 10fed pen-blwydd ein Wythnos Gofal Perthynas. Dros y degawd diwethaf, mae gofal perthynas wedi symud o fod yn aml yn cael ei anwybyddu i fod yn cael ei gydnabod a'i ddeall fwyfwy.

Mae hyn oherwydd y dylid cydnabod, gwerthfawrogi a chefnogi teuluoedd perthynas - ac mae Wythnos Gofal Perthynasau yn gyfle allweddol i ddod ynghyd i ddathlu popeth maen nhw'n ei wneud bob dydd.

Yn ystod yr wythnos Gofal Perthynas hon rydym am i brofiadau teuluoedd perthnasau gael eu gweld, eu clywed, a'u deall yn well.

Pwy sy'n ofalwr perthynas?

Mae gofalwr perthynas yn cynnwys y rhai sydd â gorchymyn cyfreithiol fel gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu orchymyn trefniadau plant, gofalwyr maeth perthynas (a elwir hefyd yn ofalwyr maeth teulu a ffrindiau neu ofalwyr maeth cysylltiedig), yn ogystal â gofalwyr anffurfiol perthynas heb orchymyn cyfreithiol.

Pecyn cymorth digidol Wythnos Gofal Perthynas - beth sydd ynddo



Canllaw ar gyfer
gwneud eich
Wythnos Gofal
Perthynas
2026 yn llwyddiant



Posteri a
thaflenni/asadau
cyfryngau cymdeithasol
Wythnos Gofal Perthynas
ar gyfer hyrwyddo
Wythnos
Gofal Perthynas



Testun i hyrwyddo
Wythnos Gofal
Perthynas
trwy'ch e-bost/
cylchlythyr/rhyngwrwy
d fewnol

Ni yw Kinship. Y brif elusen gofal perthynas yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn darparu cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth genedlaethol ac yn cysylltu gofalwyr perthynas fel eu bod nhw'n teimlo'n rymus yn hytrach nac yn ynysig.

Mae ein 160 o grwpiau cymorth cymheiriaid ledled Cymru a Lloegr yn cynnig lle diogel i ofalwyr perthynas gyfarfod â gofalwyr perthynas eraill, rhannu profiadau a chael cefnogaeth emosiynol.

Mae gweithdai a sioeau teithiol ar gyfer gofalwyr perthynas yn darparu cyngor, awgrymiadau ac offer ymarferol am ddim i'r rhai sy'n newydd i ofal perthynas ac i'r rhai sydd wedi bod yn ofalwyr perthynas ers blyneddau. Wedi'i rhedeg gan arbenigwyr, mae ein Llinell gyngor yn helpu gofalwyr sy'n berthnasau i lywio system sydd weithiau'n gymhleth ac yn ddryslyd.

Cymerwch ran yn Wythnos Gofal Perthynas



Cynyddwch ymwybyddiaeth drwy rannu gwybodaeth am ofal perthynas a chefnogaeth i ofalwyr perthynas lleol mewn llyfrgelloedd lleol, ar wefannau awdurdodau lleol, mewn siopau lleol ac ati, gyda chymorth ein **pecyn cymorth digidol Kinship**.



Dilynwch gyfryngau cymdeithasol Kinship a rhannwch wybodaeth rydym yn ei phostio am #WythnosGofalPerthynas



Cynhaliwch de parti ar gyfer gofalwyr perthynas neu deuluoeddyn eich ardal. Mae digwyddiadau te parti Wythnos Gofal Perthynas yn gyfle arbennig i ddod â theuluoedd ynghyd, lle gallwch chi fwynhau paned a chacen, sgwrsio'n gynnes a dathlu pob teulu perthynas.



Cysylltwch â'ch aelod seneddol neu gynghorydd lleol. Gwahoddwch nhw i grŵp cymorth os oes un gennych neu gofynnwch am gael cyfarfod â nhw. Rhowch wybod i gyfryngau lleol am eich grŵp lleol a'ch gweithgareddau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â comms@kinship.org.uk.

Sicrhewch eich bod yn barod ar gyfer Wythnos Gofal Perthynas drwy ddilyn cyfryngau cymdeithasol Kinship.



@Kinshipcarecharity



@kinship_charity



Kinship